# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 1 i 8 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

21 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cynghorwyr Arbennig i Aelodau Cabinet y Democratiaid Rhyddfrydol (Costau Hysbysebu)

**Glyn Davies:** Beth yw cyfanswm y costau sydd ynghlwm wrth hysbysebu ar gyfer y ddau gynghorydd arbennig i Aelodau Cabinet y Democratiaid Rhyddfrydol? (WAQ9363)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn unol â'r ymarfer safonol, caiff hysbysebion eu teilwra i gyd-fynd ag anghenion penodol y swydd. Wrth benderfynu ym mha gyhoeddiadau y dylid rhoi'r hysbyseb, rhoddir sylw i ystyriaethau gwerth am arian. Yn achos swyddi'r cynghorwyr arbennig, penderfynwyd eu hysbysebu yn y *Guardian*, *The Western Mail*, *Daily Post* Lerpwl, *Y Cymro*, *Golwg* a'r *Liberal Democrat News*. Cyfanswm y gost ar gyfer hyn, heb gynnwys treth ar werth, yw £10,387.40.

### Cynghorwyr Arbennig i Aelodau Cabinet y Democratiaid Rhyddfrydol

**Glyn Davies:** O dan ba awdurdod yr hysbysebwyd swyddi dau gynghorydd arbenigol i Aelodau Cabinet y Democratiaid Rhyddfrydol, a phryd y rhoddwyd yr awdurdod hwnnw? (WAQ9541)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Gorchymyn y Gwasanaeth Sifil mewn Cyngor 1995, fel y'i diwygiwyd ar 16 Tachwedd 2000, yn darparu ar gyfer penodi chwe chynghorydd arbennig ar gyfer rhoi cyngor i Brif Ysgrifennydd Cymru neu un o Ysgrifenyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd yr hysbyseb am ddau gynghorydd arbennig i Aelodau Cabinet y Democratiaid Rhyddfrydol ei chymeradwyo gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ar 19 Ionawr 2001.

### Cynghorwyr Arbennig y Llywodraeth (Cost Flynyddol)

**Glyn Davies:** Beth yw cost flynyddol holl gynghorwyr arbennig y Llywodraeth unwaith y caiff swyddi eu llenwi? (WAQ9542)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd cost y cynghorwyr arbennig presennol, a benodwyd ar wahanol ddyddiadau yn ystod 2000-01, tua £115,000. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyflog gros a chyfraniadau pensiwn. Gellir cyfrifo costau'r flwyddyn gron pan ddaw'r ymarfer recriwtio presennol i ben.

### Nifer y Cynghorwyr Arbennig a Geisiwyd

**Glyn Davies:** Sawl cynghorydd arbennig sydd yn cael eu ceisio? (WAQ9543)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn ceisio penodi dau gynghorydd arbennig i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr ymarfer recriwtio presennol a bydd y ddau benodiad dros dro presennol ar gyfer cynghorwyr arbennig i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dod i ben.

### Cynghorwyr Arbennig gan y Cabinet

**Glyn Davies:** Sawl cynghorydd arbennig sydd gan y Cabinet? (WAQ9544)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar hyn o bryd, mae gan y Cabinet bum cynghorydd arbennig. Mae tri phenodiad parhaol yn cynghori aelodau Llafur y Cabinet. Penodiadau dros dro yw'r ddau arall sydd yn cynghori aelodau Democratiaid Rhyddfrydol y Cabinet. Bydd y ddau benodiad dros dro yn dod i ben unwaith y gwneir penodiadau yn yr ymarfer recriwtio presennol.

### Concordat â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru amlinellu sut y mae'r Concordat â Swyddfa Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd polisi datganoledig? (WAQ9583)

**Prif Weinidog Cymru:** Bu'r concordat mewn grym ers llai na mis, felly mae'n llawer rhy gynnar i'w werthuso. Bydd yn rhoi sail gadarn i'r Cabinet ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru weithio'n agos ac yn barhaus ar amrywiaeth eang o faterion datganoledig, yn ogystal â rhai sydd heb eu datganoli.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cyllid Cymru

**Alun Cairns:** A fydd hawl gan ffermwyr ifanc i wneud cais i Gyllid Cymru? (WAQ9308)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Mae swyddogion yr Adran Amaethyddiaeth yn trafod gyda Chyllid Cymru ynghylch sut y gall gynorthwyo pobl ifanc sydd yn ffermio. Mae hwn yn fater yr wyf yn awyddus i'w annog.

### Grantiau ar gyfer y Diwydiant Coedwigaeth gan Fwrdd Croeso Cymru

**Nick Bourne:** A oes unrhyw grantiau ar gael gan Fwrdd Croeso Cymru ar gyfer y diwydiant coedwigaeth? (WAQ9310)

**Michael German:** Mae Bwrdd Croeso Cymru'n darparu cymorth grant ar gyfer prosiectau y mae'n eu hystyried a fyddai'n darparu neu'n gwella mwynderau a chyfleusterau twristiaid. Gallai'r diwydiant coedwigaeth fod yn gymwys i gael grantiau gan y bwrdd ar gyfer prosiectau sydd yn gysylltiedig â thwristiaeth. Rhaid i brosiectau gydymffurfio ag amodau a thelerau'r bwrdd ar gyfer derbyn cymorth.

Gellir cael grantiau gan y Comisiwn Coedwigaeth drwy'r cynllun grantiau coetir ar gyfer datblygu mynediad at goetiroedd ac adloniant. Mae prosiect arbennig, WIG 1, dan y grant gwella coetir, sydd yn benodol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd a darparu cyfleusterau i fwynhau'r mynediad hwnnw.

Mae swm ychwanegol arbennig gyda choetiroedd cymunedol hefyd ar gael ar gyfer creu coetiroedd newydd sydd â mynediad ar gyfer y cyhoedd.

### Y Concordat â'r Adran Masnach a Diwydiant

**Nick Bourne:** A wnaiff amlinellu sut y mae'r Concordat â'r Adran Masnach a Diwydiant wedi cynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol â datblygu economaidd? (WAQ9587)

**Michael German:** Mae'r concordat wedi darparu fframwaith cadarn ar gyfer cydweithrediad rhwng y Cynulliad a'r Adran Masnach a Diwydiant ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall. Er enghraifft, yr ydym wedi cytuno i benodi cydlynydd Cymreig a chynllun cyflwyno gwasanaethau i Gymru ar gyfer y rhaglen Envirowise ledled y DU. Rhwydwaith Arena: Canolfan Amgylchedd Cymru yw cydlynydd Cymru ar gyfer Envirowise, sydd yn anelu at gynorthwyo cwmnïau i wella eu perfformiad amgylcheddol drwy gyfrwng rhaglenni lleihau gwastraff, technoleg lân ac yn y blaen. Mae gennym gynrychiolydd Cymreig ar y Cyngor Busnesau Bach, a sefydlwyd i gynghori'r Gwasanaeth Busnesau Bach, ac mae gennym gynrychiolaeth ar lefel uwch bwrdd British Trade International. Gwelwyd cynnydd mewn cydweithrediad wrth ddarparu gwasanaethau cefnogi busnes rhyngwladol. Fe'n cynrychiolir hefyd ar y grŵp polisi menter, sydd yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig a'r Adran Masnach a Diwydiant/Gwasanaeth Busnesau Bach, er mwyn trafod cynlluniau polisi ledled y DU, a'r gwaith a wnaethpwyd ar y prif faterion dan sylw. Cafwyd ymgynghori a chydweithredu agos ynghylch llunio drafft o'r Papur Gwyn ar wyddoniaeth a bod yn arloesol, yr adolygiad o'r map o ardaloedd a gynorthwyir,

a chydweithio â'r Adran Masnach a Diwydiant a Gweithrediaeth yr Alban er mwyn sicrhau bod y cynllun cymorth dethol rhanbarthol yn cyd-fynd â'r holl hyblygrwydd a ddarperir gan y canllawiau cymorth cenedlaethol rhanbarthol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Concordat â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog dros Faterion Gwledig amlinellu sut y mae'r Concordat â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi cynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd polisi amaethyddol? (WAQ9589)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Mae'r concordat wedi darparu fframwaith cadarn ar gyfer cydweithrediad rhwng y Cabinet a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall.

Yr ydym wedi llwyddo i ddylanwadu ar gyfeiriad y polisi a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU. Er enghraifft, y Cynulliad a fu'n arwain y galw am gael gwared â chostau hylendid llaeth; fe wnaethom ymgyrchu'n llwyddiannus dros gael cymorth i'r lladd-dai llai a sicrhaom amddiffyniad pwysig ar gyfer cynhyrchwyr Cymru yn y newidiadau i'r cynllun premiwm arbennig eidion. Yr ydym yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ar gynigion i ddiwygio'r premiwm blynyddol defaid.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ8601, a wnaiff y Gweinidog restru nifer y meddygon teulu sydd yn cael eu cyflogi ym mhob meddygfa ar gyfer pob practis ledled Gorllewin De Cymru? (WAQ9297)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:** Rhoddir yr wybodaeth yn y tabl isod.

**RHESTR IECHYD MEDDYGOL**
**GORLLEWIN DE CYMRU AR 1 HYDREF 2000**

| Enw a Chyfeiriad y Feddygfa | Cyfanswm Nifer y Cleifion | Nifer y Meddygon Teulu yn y Practis |
|---|---|---|
| Y Ganolfan Iechyd, Pontardawe | 10,063 | 6 |
| Meddygfa Newcastle, Heol Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr | 4,538 | 2 |
| 88 Mynydd, Heol Garnlwyd, Clase | 4,536 | 2 |
| Stryd y Dywysoges, Gorseinon | 7,919 | 5 |
| Y Ganolfan Feddygol, Heol y Frenhines, Sgiwen | 7,618 | 4 |
| Tŷ Heathbridge, The Old Bridge, Kenfig Hill | 6,860 | 4 |
| Y Feddygfa, Heol Llangyfelach, | 5,735 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Brynhyfryd | | |
| Y Feddygfa, Heol De La Beche, Sgeti | 18,279 | 11 |
| Y Ganolfan Iechyd, Cwmafan | 3,451 | 2 |
| Canolfan Feddygol Stryd Nicholl, Abertawe | 5,719 | 3 |
| 125 Heol Port Tennant, Abertawe | 4,355 | 2 |
| 3 Frederick Place, Llansamlet | 8,058 | 5 |
| Stryd yr Ysgol, St Thomas | 8,710 | 6 |
| Y Ganolfan Iechyd, Glyncorrwg | 1,576 | 1 |
| Y Ganolfan Iechyd, Blaengwynfi | 1,767 | 1 |
| Meddygfa Tal-y-Bont, Heol yr Orsaf, Pontarddulais | 5,379 | 5 |
| Y Feddygfa, Heol Margam, Port Talbot | 9,344 | 5 |
| 108 Heol Penygraig, Mayhill | 4,490 | 3 |
| Y Feddygfa Newydd, Stryd Fictoria, Pontycymer | 8,273 | 4 |
| Scurlage, Reynoldston, Gŵyr | 6,194 | 4 |
| 151 Heol San Helen, Abertawe | 6,873 | 4 |
| Y Ganolfan Iechyd, Aberafan | 8,105 | 4 |
| Y Ganolfan Iechyd, Llansawel | 6,056 | 4 |
| Stryd y Dywysoges, Gorseinon | 2,913 | 2 |
| Practis Meddygol y Mwmbwls, 10 West Cross Avenue, Norton, Y Mwmbwls | 8,466 | 5 |
| Y Ganolfan Feddygol, Heol-yr-Onnen, Pen-coed | 5,200 | 5 |
| 139/140 Heol San Helen, Abertawe | 7,889 | 5 |
| Heol yr Eglwys, Blaendulais, Castell-nedd | 4,983 | 4 |
| Y Feddygfa Newydd, 3 New Street, Abercynffig | 3,955 | 2 |
| Y Feddygfa, Sway Rd, Treforys | 8,805 | 5 |
| Meddygfa’r Castell, 1 Prince of Wales | 9,816 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Drive, Castell-nedd | | |
| Y Feddygfa, Woodlands Terrace, Caerau | 5,822 | 4 |
| Meddygfa Oldcastle, South Street, Pen-y-bont ar Ogwr | 13,737 | 7 |
| Meddygfa Tŷ'n-y-Coed, 20 Merfield Close, Bryncethin | 7,590 | 4 |
| Canolfan Feddygol Tawe, St Thomas | 4,061 | 2 |
| Y Ganolfan Iechyd, Castell-nedd | 9,705 | 6 |
| Y Ganolfan Iechyd, Fforestfach | 5,910 | 4 |
| Y Feddygfa Newydd, Heol Llangrallo, Pen-coed | 6,364 | 3 |
| Canolfan Feddygol Tre Gŵyr, Mill Street, Tre Gŵyr | 11,466 | 6 |
| Y Ganolfan Iechyd, Llansawel | 6,123 | 4 |
| Meddygfa Bro Ogwr, Commercial Street, Bro Ogwr | 4,379 | 2 |
| Canolfan Feddygol Cwmfelin, Heol Caerfyrddin, Abertawe | 7,870 | 5 |
| Meddygfa New Cross, 48 Sway Rd, Treforys | 6,668 | 3 |
| Y Ganolfan Iechyd, Clydach | 10,801 | 5 |
| Meddygfa Llynfi, Maesteg | 9,167 | 5 |
| Meddygfa Ffordd y Brenin, 37 Ffordd y Brenin, Abertawe | 8,876 | 6 |
| Meddygfa Tŷ'r Felin, Heol Cecil, Gorseinon | 10,066 | 6 |
| Tŷ Riversdale, Heol Merthyrmawr, Pen-y-bont ar Ogwr | 15,118 | 9 |
| Y Ganolfan Iechyd, Fforestfach | 6,940 | 3 |
| Meddygfa Ffordd y Brenin, Y Mwmbwls | 3,925 | 3 |
| Canolfan Feddygol Fairfield, Julian Terrace, Port Talbot | 6,622 | 5 |
| 36 Rhodfa Fictoria, Porthcawl | 2,425 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| 21 Heol Mansel, Bonymaen, Abertawe | 1,273 | 1 |
| 4 Heol Gwilym, Cwmllynfell | 1,556 | 1 |
| Y Ganolfan Iechyd, Penclawdd | 1,967 | 1 |
| Y Ganolfan Iechyd, Y Cymer | 2,615 | 2 |
| Meddygfa Kings, Y Ganolfan Iechyd, Aberafan | 5,007 | 2 |
| Heol Morrison, Port Talbot | 4,427 | 2 |
| Gerddi Fictoria, Castell-nedd | 8,381 | 5 |
| Bod Feddyg, 102 Stryd Fawr, Glyn-nedd | 6,853 | 4 |
| Bron-y-Garn, Maesteg | 5,018 | 3 |
| Stryd Elgin, Tre Mansel, Abertawe | 6,939 | 4 |
| 1 The Portway, Porthcawl | 14,638 | 8 |
| 4 Stryd y Tabernacl, Sgiwen | 4,377 | 2 |
| Y Feddygfa, Gogledd Corneli | 8,845 | 4 |
| Ashfield, Heol Merthyrmawr, Pen-y-bont ar Ogwr | 7,004 | 4 |
| 89 Stryd Aberdyberhi, Hafod | 1,627 | 1 |
| 4 Lôn Teifi, Y Cocyd, Abertawe | 1,682 | 1 |
| Y Crwys, Abertawe | 1,340 | 1 |
| 5 Strawberry Place, Treforys | 6,226 | 4 |
| 48 Heol y Sgeti, Uplands | 8,012 | 6 |
| Y Ganolfan Feddygol, Y Brifysgol | 7,082 | 3 |
| Y Feddygfa, Gerddi Fictoria, Castell-nedd | 2,355 | 1 |
| 89 Stryd Fawr, Bro Ogwr | 1,159 | 1 |
| 160 Stryd Fawr, Abertawe | 1,942 | 1 |
| Clinig Dew Road, Port Talbot | 1,881 | 1 |
| Y Ganolfan Iechyd, Resolfen | 1,956 | 1 |
| Y Feddygfa, Nantyffyllon | 2,635 | 1 |
| Canolfan Feddygol Cheriton, Cheriton | 2,636 | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Crescent, Portmead, Abertawe | | |
| Canolfan Feddygol Sant Ioan, Stryd Herbert, Pontardawe | 859 | 1 |
| Clinig Glanrhyd, Nantymoel, Pen-y-bont ar Ogwr | 2,413 | 1 |

**Glanweithdra Ysbytai Cymru**

**David Melding:** A wnaiff Jane Hutt neilltuo adnoddau clustnodedig i fynd i'r afael â glanweithdra ysbytai Cymru? (WAQ9307)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ystyried mater glanweithdra yn ysbytai Cymru, a byddaf yn delio â hyn yng nghynllun NHS Cymru, a gaiff ei lansio ar 2 Chwefror.

**Hemoffilia a Chyflyrau Cysylltiedig**

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i wella a datblygu gwasanaethau ar gyfer hemoffilia a chyflyrau cysylltiedig yng Nghymru? (WAQ9347)

**David Melding:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud sylwadau ar y 'Manylebau Cenedlaethol ar gyfer Hemoffilia a Chyflyrau Cysylltiedig'? (WAQ9348)

**Jane Hutt:** Atebaf y ddau gwestiwn gyda'i gilydd. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i wella ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau iechyd ar gyfer pob claf yng Nghymru. Yr wyf yn croesawu'r ymdrech a wneir gan y Gynghrair Hemoffilia i lunio safonau gofal ar gyfer cyflwyno gwasanaethau hemoffilia.

Cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw comisiynu gwasanaethau o'r fath yng Nghymru a byddant hwy'n dymuno ystyried pa gyfraniad y gallai'r gwaith hwn ei wneud i'r broses o gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau drwy eu rhaglenni gwella iechyd.

**Plant yn Gweithio'n Anghyfreithlon**

**Ann Jones:** Faint o blant a oedd yn gweithio yn anghyfreithlon ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf yng Nghymru? (WAQ9349)

**Jane Hutt:** Nid yw'r Cynulliad yn casglu'r wybodaeth hon. Awdurdodau addysg lleol sydd yn gyfrifol am orfodi darpariaethau yn adran 18 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ac mewn deddfau lleol sydd yn llywodraethu cyflogi plant sydd yn iau nag oedran gadael ysgol.

**Gwaredu Gwastraff Clinigol**

**Dafydd Wigley:** Pa gyfarwyddyd a roddwyd ganddi i'r ymddiriedolaethau iechyd ynglŷn â pholisi i waredu gwastraff clinigol o ysbytai, ac a wnaiff ddatganiad ar y mater? (WAQ9360) [W]

**Jane Hutt:** Mae ymddiriedolaethau NHS Cymru wedi derbyn nifer o ddogfennau canllaw a nodiadau cyngor ynghylch gwaredu gwastraff clinigol. Fe'u nodir isod:

Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch

(i) The Safe Disposal of Clinical Waste (1999)

Asiantaeth Ystadau'r NHS

(ii) Strategic Guide for Waste Management (1991)
(iii) Strategic Guide for Clinical Waste Management (1994)
(iv) Health Guidance Note—Clinical waste incineration—joint venture arrangements (1994)
(v) Health Guidance Note—Safe disposal of clinical waste—whole hospital policy guidance (1995)
(vi) Health Technical Memoranda 2065—Healthcare waste management—segregation of waste streams in clinical areas (1997)
(vii) Health Technical Memoranda 2075—Clinical waste disposal/treatment technologies (alternatives to incineration) (1998)

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifennu at ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru i'w hatgoffa o'u hymrwymiadau cyfreithiol i gyflawni 'dyletswydd gofal', fel cynhyrchwyr gwastraff, dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

**Cyfarwyddwyr Cysylltiol Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS**

**David Melding:** A oes gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9467)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr Awdurdod yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru? (WAQ9468)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9469)

**David Melding:** A oes gan Awdurdod Iechyd Bro Taf 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9470)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr Awdurdod yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Awdurdod Iechyd Bro Taf? (WAQ9471)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Awdurdod Iechyd Bro Taf ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9472)

**David Melding:** A oes gan Awdurdod Iechyd Dyfed Powys 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9473)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr Awdurdod yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys? (WAQ9474)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9475)

**David Melding:** A oes gan Awdurdod Iechyd Gwent 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9476)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr Awdurdod yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'gyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Awdurdod Iechyd Gwent? (WAQ9477)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Awdurdod Iechyd Gwent ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9478)

**David Melding:** A oes gan Awdurdod Iechyd Morgannwg Health 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9479)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr Awdurdod yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Awdurdod Iechyd Morgannwg Health? (WAQ9480)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Awdurdod Iechyd Morgannwg Health ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9481)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9482)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg? (WAQ9483)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9484)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9485)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro? (WAQ9486)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9487)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Caerfyrddin 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9488)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Caerfyrddin? (WAQ9489)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Caerfyrddin ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9490)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion a Chanolbarth Cymru 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9491)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion a Chanolbarth Cymru? (WAQ9492)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion a Chanolbarth Cymru ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9493)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Siroedd Conwy a Dinbych 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9494)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Siroedd Conwy a Dinbych? (WAQ9495)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Siroedd Conwy a Dinbych ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9496)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9497)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent? (WAQ9498)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9499)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9500)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru? (WAQ9501)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9502)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9503)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg? (WAQ9504)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9505)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Orllewin Cymru 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9506)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Orllewin Cymru? (WAQ9507)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Orllewin Cymru ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9508)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9509)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr cysylltiol' (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen? (WAQ9510)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9511)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a'r Rhondda 'gyfarwyddwyr cysylltiol' yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi'r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9512)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau'r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na'r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer 'cyfarwyddwyr

cysylltiol’ (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a’r Rhondda? (WAQ9513)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a’r Rhondda ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9514)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys ‘gyfarwyddwyr cysylltiol’ yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi’r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9515)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau’r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na’r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer ‘cyfarwyddwyr cysylltiol’ (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys? (WAQ9516)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9517)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Abertawe ‘gyfarwyddwyr cysylltiol’ yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi’r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9518)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau’r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na’r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer ‘cyfarwyddwyr cysylltiol’ (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Abertawe? (WAQ9519)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Abertawe ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9520)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Felindre ‘gyfarwyddwyr cysylltiol’ yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi’r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9521)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau’r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na’r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer ‘cyfarwyddwyr cysylltiol’ (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Felindre? (WAQ9522)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Felindre ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9523)

**David Melding:** A oes gan Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ‘gyfarwyddwyr cysylltiol’ yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr (cyf. WAQ8725) ac, os oes, a wnaiff y Gweinidog enwi’r cyfarwyddwyr cysylltiol hynny? (WAQ9524)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau’r dull o benodi, a hynny drwy reolau sefydlog yr ymddiriedolaeth yn hytrach na’r gorchymyn sefydlu, a hyd y penodiadau, ar gyfer ‘cyfarwyddwyr cysylltiol’ (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) yn Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? (WAQ9525)

**David Melding:** A all y Gweinidog gadarnhau bod gan bob un o gyfarwyddwyr cysylltiol (yn ôl diffiniad y Gweinidog yn ei gohebiaeth ar 18 Ionawr, cyf. WAQ8725) Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ddisgrifiad swydd, ac a all ddweud a hysbysebir y swyddi hynny ai peidio? (WAQ9526)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog. Mater i'r ymddiriedolaeth NHS a bwrdd yr awdurdodau iechyd unigol yw penodiad a rôl cyfarwyddwyr cysylltiol.

### Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru Gyfan

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ymgynghori ar ddrafft diwygiedig Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru Gyfan? (WAQ9563)

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig cyhoeddi'r strategaethau iechyd meddwl ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc i'r gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Ymgynghorwyd yn helaeth ar y strategaeth drafft gwreiddiol ar gyfer oedolion, gyda chymorth ariannol gan y Cynulliad ar gyfer cynadleddau ymgynghori a drefnir gan Mind Cymru ac eraill. Yn sgîl y nifer helaeth o atebion a gafwyd, lluniwyd llawer o bwyntiau adeiladol a gaiff eu hymgorffori yn y ddogfen derfynol. Ymdrinnir â llawer o'r pwyntiau eraill a godwyd yn y fframwaith o'r gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru, a ddaw ar ôl y strategaeth.

Bydd trafodaeth bellach yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfle arall i ymgynghori ar faterion allweddol sydd yn codi o'r strategaethau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd

**Helen Mary Jones:** A all y Gweinidog dros yr Amgylchedd egluro'r broses, yr amserlen a'r trefniadau ymgynghori ar gyfer trosi Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn is-ddeddfwriaeth yng Nghymru? (WAQ9530)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Cyhoeddwyd cyfarwyddeb 2000/60/EC sydd yn sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu gan y Gymuned ym maes polisi dŵr yn yr *Official Journal of the European Communities* ar 22 Rhagfyr 2000. Mae gan yr aelod-wladwriaethau dair blynedd, hynny yw, hyd at 22 Rhagfyr 2003, i ddod â'r cyfreithiau, y rheoliadau a'r darpariaethau gweinyddol sydd yn angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfarwyddeb i rym.

Mae'r gyfarwyddeb yn codi materion trawsffiniol cymhleth y mae'n rhaid eu datrys, o leiaf mewn egwyddor, yn gynnar yn y broses weithredu. Bu swyddogion yn trafod trosi'r gyfarwyddeb, gyda'u cymheiriaid yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, ers rhai misoedd. Os bydd y Cynulliad yn trosi'r gyfarwyddeb yng Nghymru, mae'n debygol y bydd angen ei nodi at y diben hwn dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972. Disgwylir y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus cynnar ar yr egwyddorion cyffredinol sydd yn ymwneud â'i roi ar waith, gan gynnwys rheoli ardaloedd basn afonydd trawsffiniol. Mae'n debyg y dilynir hyn gan rowndiau ymgynghori cyhoeddus eraill cyn y bydd hi'n amser llunio deddfwriaeth eilaidd.

### Cyfyngiadau ar Gyflymder ar yr A40 yn Llansantffraid

**Nick Bourne:** Pa gynnydd a wnaethpwyd o ran rhoi cyfyngiadau ar gyflymder ar yr A40 yn Llansantffraid? (WAQ9591)

**Sue Essex:** Nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto ynghylch a ddylid cyfyngu'r cyflymder yn Llansanffraid. Yr ydych yn ymwybodol bod y cyngor cymuned wedi cyflwyno eu pryderon ynghylch y trefniant cyffordd hwn mewn cyfarfod yn hwyr y llynedd. Mae fy swyddogion yn gwneud trefniadau i'r

gweithgor diogelwch ar y ffyrdd (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad, cynghorau Sir Powys a Sir Gaerfyrddin a'r heddlu a pheiriannydd ymgynghorol) i ymweld â'r safle o fewn y deufis nesaf. Ei gylch gorchwyl fydd archwilio'r safle, nodi problemau, ac yna gwneud argymhellion ystyriol i ddelio â'r problemau hynny. Yna, bydd fy swyddogion yn cymryd camau addas ar sail yr argymhellion hynny.

### Teithio yn Rhad ac am Ddim i Bensiynwyr a Phobl ag Anabledd

**Janet Ryder:** A all y Gweinidog ddweud wrthyf pa awdurdodau yng Nghymru sydd wedi cyflwyno teithio consesiynol yn rhad ac am ddim i bensiynwyr a phobl ag anabledd, a pha rai fydd yn gallu ei gyflwyno erbyn Ebrill 2001? (WAQ9592)

**Sue Essex:** Yr ydym yn bwriadu caniatáu i holl bensiynwyr a phobl anabl gael tocyn bws am ddim o 1 Ebrill 2001 ymlaen. Bydd teithio am ddim ar gael o 1 Ebrill 2002 ymlaen. Ar wahân i Gaerdydd, nid oes unrhyw awdurdod lleol yn cynnig i bensiynwyr deithio am ddim, ond mae pob awdurdod arall yn cynnig rhyw fath o deithio consesiynol, fel arfer am hanner pris, ar gyfer pensiynwyr a phobl anabl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Addysg Feithrin i Blant Catholig

**David Melding:** Pa ddarpariaeth sydd yn bodoli yn Ninas Caerdydd ar gyfer rhoi addysg feithrin i blant Catholig? (WAQ 9531)

**David Melding:** A yw hi'n bolisi gan y weinyddiaeth—yn unol â'r bwriad i ddarparu addysg feithrin i bob plentyn—i ariannu unedau meithrin mewn ysgolion cynradd Catholig? (WAQ9532)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Gan fod eich cwestiynau'n gysylltiedig, fe atebaf y ddau gyda'i gilydd.

Ceir darpariaeth addysg feithrin yn nhair o 13 ysgol gynradd Gatholig y sir ac mae cynllun trefniadol ysgolion Caerdydd ar gyfer 2001-06 yn cadarnhau bod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn awyddus i gefnogi twf darpariaeth enwadol lle na fyddai hynny'n golygu tanseilio'r ddarpariaeth bresennol.

Mae penderfyniadau strategol ynghylch sut ac ymhle y mae awdurdodau'n bwriadu bodloni eu cyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau y darperir lleoedd addysg am ddim, o leiaf hanner amser, o ansawdd da, yn ystod y tri thymor cyn dechrau addysg orfodol, i bob plentyn pedair oed y mae ei rieni'n dymuno hynny, yn fater iddynt hwy a'r bartneriaeth datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym mis Chwefror 1999 yn darparu cyngor ynghylch sefydlu partneriaethau datblygu blynyddoedd cynnar a gofal plant a llunio cynlluniau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant ar gyfer plant sydd yn iau nag oedran addysg orfodol. Wrth lunio eu cynlluniau, rhaid i bartneriaethau gynnal asesiad o'r ddarpariaeth bresennol a'r galw nas bodlonwyd o ran darpariaeth llefydd, a dangos effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ffordd y cyflwynir y ddarpariaeth.

Dylai cynlluniau gyd-fynd â chynllun strategol addysg yr awdurdod, hyrwyddo cydraddoldeb mynediad a dylid cynnal ymgynghoriad ystyrlon ac eang, sydd yn adlewyrchu anghenion amrywiol rhieni a theuluoedd. Caiff nawdd i alluogi awdurdodau lleol i gwrdd â'r rhwymedigaethau hyn eu cynnwys yn setliad refeniw llywodraeth leol.

Pan fo awdurdod yn penderfynu agor ysgol newydd neu newid y ddarpariaeth mewn ysgol bresennol, bydd yn rhaid iddo ddilyn y broses statudol a amlinellir yng nghylchlythyr 9/99 'Trefniadaeth Lleoedd Ysgol', sydd yn cynnwys ymgynghoriad lleol ac yn cyhoeddi'r hysbysiad sydd yn gwahodd gwrthwynebiadau. Os ceir unrhyw wrthwynebiadau, fy nghyfrifoldeb i, yn rhinwedd fy swydd fel

Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yw penderfynu a gaiff y cynnig ei ganiatáu ai peidio. Pan fo cynnig yn llwyddiannus, gellir cael nawdd am 85 y cant o gostau'r llywodraethwr dan raglen creu cyfalaf ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

### Gwahardd Disgyblion Benywaidd oherwydd eu bod yn Feichiog

**Ann Jones:** Faint o ddisgyblion benywaidd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru gafodd eu gwahardd o'r ysgol rhwng 1996 a 2000 oherwydd eu bod yn feichiog? (WAQ 9353 )

**Jane Davidson:** Mae Cylchlythyr 3/99 y Cynulliad Cenedlaethol, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', sydd yn rhoi arweiniad ynghylch dieithrio, yn datgan nad yw beichiogrwydd yn rheswm dros ddieithrio, ac ni ddylai byth fod chwaith. O ganlyniad, nid yw'r Cynulliad yn casglu'r wybodaeth hon ynghylch dieithrio disgyblion.

Fodd bynnag, cydnabyddir y ffaith mai Cymru sydd â'r lefel uchaf o fenywod beichiog yn eu harddegau yng ngorllewin Ewrop a dengys astudiaethau bod y rhan fwyaf o famau a thadau yn eu harddegau yn gadael yr ysgol yn 16 gyda nifer fach, neu ddim cymwysterau o gwbl. Felly mae'r arweiniad yng nghylchlythyr 3/99 yn cynghori y dylai ysgolion gydweithio gyda'r awdurdod addysg lleol a'r adran gwasanaethau cymdeithasol lleol i ddarparu cefnogaeth addas i ddisgyblion benywaidd drwy gydol y beichiogrwydd ac ar ôl i'r plentyn gael ei eni. Dylid cyfeirio'r gefnogaeth at gadw'r disgybl yn yr ysgol, ac iddi ddychwelyd i addysg llawn amser, coleg addysg bellach neu uned addas cyn gynted â phosibl. Dylai menywod beichiog sydd yn derbyn eu haddysg y tu allan i'r ysgol yn ystod eu beichiogrwydd aros ar gofrestr yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r ysgol ar ôl yr enedigaeth os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ni ddylai disgybl sydd yn disgyn yn feichiog gael mwy na 18 wythnos o absenoldeb awdurdodedig ar gyfer yr amser yn union o flaen ac ar ôl genedigaeth y plentyn.

### Prentisiaethau Modern

**Ann Jones:** Sawl (a) dyn a (b) menyw sydd wedi eu gosod ar brentisiaethau modern ers cyflwyno'r cynllun yng Nghymru? (WAQ9354)

**Jane Davidson:** Gosodwyd (a) 13,670 dyn a (b) 8,871 menyw ar brentisiaethau modern ers cyflwyno'r cynllun yng Nghymru yn 1995-96. (Ffynhonnell: gwybodaeth rheoli y cyngor hyfforddiant a menter a chronfa ddata hyfforddedigion yr Adran Addysg a Chyflogaeth).

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Model Maint Llawn o Siambr Newydd y Cynulliad

**Alun Cairns:** A fyddai'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau cystal â dweud faint gostiodd y model maint llawn o Siambr y Cynulliad? (WAQ9295)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Caiff yr arian ar gyfer creu model o'r siambr drafod a'r ystafell bwyllgor ei gynnwys yn y ddarpariaeth a roddwyd yn y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn. Y gost gychwynnol o greu'r model yw £49,000 (heb gynnwys TAW) ac mae hyn yn cynrychioli llai na 0.2 y cant o gyfanswm darpariaeth y gyllideb ar gyfer y prosiect.

### Incwm Person Anabl (Defnyddio fel Tâl am Ofal)

**Dafydd Wigley:** Beth yw'r gyfran uchaf o incwm person anabl y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru ei chymryd fel tâl am ofal i ganiatáu i'r person hwnnw heu honno allu byw yn annibynnol? (WAQ9346) [W]

**Edwina Hart:** O dan y Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983, mae disgresiwn gan awdurdodau lleol ynghylch pa system i'w gweithredu wrth godi tâl am ofal di-breswyl, ond rhaid i'r tâl fod yn rhesymol.

Mae cryn dipyn o amrywiaeth ar draws Cymru ym maint y tâl a godir a'r arferion sydd yn gysylltiedig â chodi'r tâl. Mae rhai awdurdodau lleol yn codi tâl am ofal yn y cartref ar bobl sydd yn cael budd-daliadau megis lwfans mynychu a lwfans byw i'r anabl. Mewn llawer o achosion, efallai y byddant yn cael cymhorthdal incwm hefyd.

Cafodd y Cynulliad Cenedlaethol bwerau newydd yn Neddf Safonau Gofal 2000 i roi cyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol ynghylch codi tâl am wasanaethau gofal yn y cartref. Y mis nesaf, rhyddheir cyfarwyddyd drafft ar gyfer ymgynghori ar bolisïau mwy teg ar godi tâl am ofal yn y cartref a gwasanaethau cymdeithasol di-breswyl eraill. Mae'r cyfarwyddyd drafft yn dweud na ddylai'r taliadau ostwng incymau defnyddwyr y gwasanaethau islaw lefelau sylfaenol y Cymhorthdal Incwm. Yn dibynnu ar incwm y defnyddwyr, mae hefyd yn dweud na ddylid o angenrheidrwydd hepgor budd-daliadau sydd yn gysylltiedig ag anabledd rhag cael eu hystyried wrth wneud yr asesiad. Ond, lle y cymerir y budd-daliadau i ystyriaeth, dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw dâl yn rhesymol.

### Tai mewn Aml-breswyliaeth (Is na'r Safon)

**Ann Jones:** Beth yw canran a nifer y tai mewn aml-breswyliaeth yng Nghymru a farnwyd yn is na'r safon ym mhob un o'r ugain mlynedd diwethaf? (WAQ9355)

**Edwina Hart:** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn dynodi tai mewn aml-breswyliaeth yn anaddas i bobl fyw ynddynt fel rhan o'r broses orfodi i wneud yr adeiladau hyn yn addas i bobl fyw ynddynt. Dengys y tabl isod nifer y tai mewn aml-breswyliaeth a adroddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n canolbwyntio ar y 10 mlynedd diwethaf oherwydd mai dim ond yn 1990 y cyflwynwyd y safonau addasrwydd presennol. Nid oes amcangyfrif cywir, sydd ar gael yn ganolog, o gyfanswm y tai mewn aml-breswyliaeth yng Nghymru.

**Cymru: Tai mewn aml-breswyliaeth a ddynodwyd[(1)] yn anaddas yn ystod y flwyddyn**

| | Nifer |
|---|---:|
| 1990-91 | 520 |
| 1991-92 | 978 |
| 1992-93 | 863 |
| 1993-94 | 1,092 |
| 1994-95 | 888 |
| 1995-96 | 840 |
| 1996-97 | 667 |
| 1997-98 | 625 |
| 1998-99 | 497 |
| 1999-00 | 579 |

(1) Anheddau penodol a farnwyd yn is na'r safon gan yr awdurdod lleol dan adran 604 neu adran 352 Deddf Tai 1985 lle bo'r awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau i wneud y safon yn dderbyniol.

**Tai mewn Aml-breswyliaeth (Marwolaethau o ganlyniad i Wenwyn Carbon Monocsid a Thanau)**

**Ann Jones:** Faint o farwolaethau a gafwyd o ganlyniad i (a) gwenwyn carbon monocsid a (b) tanau mewn tai mewn aml-breswyliaeth yng Nghymru rhwng 1980 a 1998? (WAQ9356)

**Edwina Hart:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cadw'r wybodaeth hon.

**Tai mewn Aml-breswyliaeth heb Ddihangfeydd Tân Digonol**

**Ann Jones:** Faint o dai mewn aml-breswyliaeth yng Nghymru, fel canran ac fel cyfanswm, oedd heb ddihangfeydd tân digonol rhwng 1980 a 1998? (WAQ9357)

**Edwina Hart:** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn dynodi tai mewn aml-breswyliaeth yn anaddas i bobl fyw ynddynt fel rhan o'r broses orfodi i wneud yr adeiladau hyn yn addas i bobl fyw ynddynt. Dengys y tabl isod nifer y tai mewn aml-breswyliaeth (fel yr adroddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol) a ddynodwyd yn anaddas gan awdurdodau oherwydd nad oedd digon o ragofalon i ddianc rhag tân ynddynt. Mae'n canolbwyntio ar y 10 mlynedd diwethaf oherwydd mai dim ond yn 1990 y cyflwynwyd y safonau addasrwydd presennol.

Nid oes amcangyfrif cywir, sydd ar gael yn ganolog, o gyfanswm y tai mewn aml-breswyliaeth yng Nghymru.

**Rhesymau dros ddynodi tai mewn aml-breswyliaeth yn anaddas (1) o dan y gofynion (2) am gyfleusterau addas i ddianc rhag tân**

| | Nifer |
|---|---|
| 1990-91 | 350 |
| 1991-92 | 702 |
| 1992-93 | 458 |
| 1993-94 | 729 |
| 1994-95 | 565 |
| 1995-96 | 548 |
| 1996-97 | 313 |
| 1997-98 | 468 |
| 1998-99 | 247 |
| 1999-00 | 318 |

(1) Anheddau penodol a farnwyd yn anaddas gan yr awdurdod lleol dan adran 352 Deddf Tai 1985 lle bo'r awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau i wneud y safon yn dderbyniol.
(2) Gellir dynodi tŷ aml-breswyliaeth yn anaddas dan fwy nag un o ofynion.

**Budd-dâl Tai**

**Ann Jones:** Ar gyfartaledd, faint o oedi sydd cyn talu budd-dâl tai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru? (WAQ9358)

**Edwina Hart:** Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol yw budd-dal tai. Fe'm hysbyswyd nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gael.

**Tai mewn Aml-breswyliaeth (Perchnogion a Erlynwyd)**

**Ann Jones:** Faint o berchnogion tai mewn aml-breswyliaeth yng Nghymru a erlynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gymreig cyn hynny, neu gan awdurdodau lleol, am ganiatáu'r defnydd o lety is na'r safon ym mhob un o'r 20 mlynedd diwethaf? (WAQ9359)

**Edwina Hart:** Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol, na'r Swyddfa Gymreig gynt, bwerau i erlyn perchnogion tai mewn aml-breswyliaeth. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw hynny. Ni chedwir cofnod canolog o nifer yr erlyniadau a wnaethpwyd gan awdurdodau lleol.

**Model Maint Llawn o Siambr Newydd y Cynulliad (Cost)**

**Glyn Davies:** Beth yw'r gost o adeiladu'r model maint llawn o Siambr newydd y Cynulliad, ac o dan ba bennawd yn y gyllideb y caiff ei ariannu? (WAQ9364)

**Edwina Hart:** Y gost gychwynnol o greu model o'r siambr drafod a'r ystafell bwyllgor yw £49,000 (heb gynnwys TAW). Darperir ar gyfer y gost hon yng nghyllideb gyfalaf adeilad y Cynulliad, ac fe'i priodolir iddi.

**Gwariant a Fyddai'n Codi yn Sgîl Cau Gwaith Dur Llanwern**

**Dafydd Wigley:** Faint o arian sydd gan y Gweinidog yn ei chyllideb ar gyfer 2001-2002 i ymdrin â gwariant hyfforddi a fyddai'n codi yn sgîl cau gwaith dur Llanwern? (WAQ9454)

**Dafydd Wigley:** Faint o arian sydd gan y Gweinidog yn ei chyllideb ar gyfer 2001-2002 i ymdrin â gwariant datblygu diwydiannol a fyddai'n codi yn sgîl cau gwaith dur Llanwern? (WAQ9455)

**Edwina Hart:** Er bod pawb yn y Cynulliad Cenedlaethol yn brwydro'n galed i ddarbwyllo Corus i beidio â chau Llanwern, nid nawr yw'r amser i asesu beth fyddai'r goblygiadau ariannol posibl i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cyswllt â'r mater hwn.

**Model Maint Llawn Siambr Newydd y Cynulliad (Costau Rhentu)**

**Glyn Davies:** Faint o rent sydd yn cael ei dalu am yr adeilad ble y lleolir model maint llawn Siambr newydd y Cynulliad? (WAQ9528)

**Edwina Hart:** Cost rhentu'r adeilad yw £45,000 y flwyddyn (heb gynnwys TAW).

**Adeilad y Cynulliad (Ffioedd a Dalwyd i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd)**

**Glyn Davies:** Pa ffioedd a dalwyd i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad, ac o ba bennawd cyllideb y talwyd y ffioedd hynny? (WAQ9529)

**Edwina Hart:** Ni thalwyd unrhyw ffioedd i Gyngor Sir Caerdydd o ran hysbysiad cynllunio dan Gylchlythyr 37/84 nac o ran rheoliadau adeiladu.

**Model Maint Llawn o Siambr Newydd y Cynulliad (Adeiladu)**

**Glyn Davies:** Pwy adeiladodd y model maint llawn o Siambr drafod newydd y Cynulliad? (WAQ9533)

**Edwina Hart:** Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd Four-sure Construction Limited i adeiladu'r model.

**Adeilad Newydd y Cynulliad (Skanska Cyfyngedig)**

**Glyn Davies:** Ar ba delerau y mae Skanska Cyfyngedig wedi bod yn cyfrannu at brosiect adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ9534)

**Edwina Hart:** Fel y rheolwt-gontractwr a benodwyd, cafodd Skanska Cyfyngedig eu penodi i reoli a chaffael y gwaith adeiladu dan fersiwn ddiwygiedig o ffurflen contract safonol GC/Works\1 a ddefnyddir ar gyfer prosiectau'r llywodraeth.

Caiff y gwaith adeiladu ei hun ei dendro fel cyfres o becynnau a bydd y cynigwyr llwyddiannus yn isgontractwyr i Skanska Cyfyngedig.

**Adeilad Newydd y Cynulliad (Tendrau Rheolwr-gontractiwr)**

**Glyn Davies:** Sawl tendr a dderbyniwyd ar gyfer ymgymryd â'r gwaith o fod yn rheolwr-gontractiwr prosiect adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ9535)

**Edwina Hart:** Yn dilyn proses dendro gystadleuol yn yr *Official Journal of the European Communities*, cyflwynwyd dau dendr ar gyfer penodiad y rheolwr-gontractiwr. Gwahoddwyd trydydd contractwr i gyflwyno tendr ond gwrthododd. Dewiswyd y tri a wahoddwyd i dendro fel y rhai mwyaf addas allan o 'restr hir' o bump, a ddewiswyd yn wreiddiol o restr hirach o bobl a oedd wedi mynegi diddordeb.

**Model Maint Llawn o Siambr Newydd y Cynulliad (Tendrau Adeiladu)**

**Glyn Davies:** Sawl tendr a dderbyniwyd ar gyfer y contract i adeiladu'r model maint llawn o Siambr drafod adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ9536)

**Edwina Hart:** Yn dilyn proses dendro gystadleuol, derbyniwyd tri tendr am y contract i adeiladu'r model.

**Model Maint Llawn o Siambr Newydd y Cynulliad (Cymeradwyo'r Gwaith Adeiladu)**

**Glyn Davies:** O dan ba awdurdod y cymeradwywyd adeiladu'r model maint llawn o Siambr drafod newydd y Cynulliad? (WAQ9539)

**Edwina Hart:** Mae'r holl waith a wneir ar brosiect adeiladu'r Cynulliad (gan gynnwys adeiladu model o'r Siambr a'r ystafell Bwyllgor sydd eu hangen i oleuo'r broses gynllunio) yn cael ei wneud yn unol â phwerau'r Cynulliad a bennwyd dan adran 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Rhoddais yr awdurdod i barhau â'r model ar ôl i'r grŵp llywio polisi ystyried hyn.

Yn y drafodaeth a gafwyd ar y prosiect ym mis Gorffennaf 1999, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd bryd hynny, ein bwriad i barhau â model o'r ddwy nodwedd allweddol hyn o'r adeilad ac i ganiatáu Aelodau i ymweld â'r modelau.

**Adeilad Newydd y Cynulliad (Cost y Tir Ychwanegol sydd ei Angen)**

**Glyn Davies:** Pa gost y cytunwyd arni yn y pen draw am y tir ychwanegol sydd ei angen i adeiladu adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ9540)

**Edwina Hart:** Prynwyd y tir ychwanegol am *rent* rhad o £1.

Amcangyfrifir bod y ffioedd proffesiynol sydd yn ymwneud â chwblhau'r trafodaethau prydlesu cymhleth tua £100,000 (heb gynnwys TAW). Mae'r costau hyn wedi eu cynnwys yn narpariaeth bresennol y gyllideb ar gyfer y prosiect adeiladu.

Hoffai Aelodau'r Cynulliad nodi bod y ffaith ein bod wedi caffael y tir ychwanegol hefyd yn golygu buddiannau anuniongyrchol i Grosvenor Waterside gan na fydd angen iddo wneud gwelliannau i'r ffyrdd cyfagos a allai fod wedi bod yn angenrheidiol i sicrhau bod yr awdurdod priffyrdd yn eu mabwysiadu. Mae'r ffyrdd hyn nawr yn ffurfio rhan o safle'r Cynulliad. Nid ydym yn bwriadu iddynt gael eu mabwysiadu oherwydd y byddai'n well gennym eu cadw dan ein rheolaeth ein hunain, am resymau diogelwch ac amddiffyn y cyhoedd. Byddwn yn gwneud ychydig o waith i sythu a gwneud gwelliannau i'r ffyrdd. Mae'r costau cysylltiedig wedi eu cynnwys yn y gyllideb bresennol.

### Cyflogau Ymgynghorwyr Arbennig

**Nick Bourne:** O dan ba bennawd cost y telir cyflogau dau ymgynghorydd arbennig y Democratiaid Rhyddfrydol? (WAQ9584)

**Edwina Hart:** Daw cyflogau'r ddau ymgynghorydd arbennig o gyllideb ddirprwyol costau cynnal Gweithrediaeth y Cabinet sydd yn elfen o linell gwariant cyllideb costau staff ym mhrif grŵp gwariant y weinyddiaeth ganolog.

### Costau Cynyddol Gwacáu Ceubyllau

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y costau cynyddol sydd yn wynebu trigolion yn yr ardaloedd gwledig ar gyfer gwacáu ceubyllau? (WAQ9585)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol y gwnaethpwyd nifer o gwynion ynghylch y cynnydd mewn costau gwacáu ceubyllau. Ymddengys bod unrhyw gynnydd yn y costau o ddarparu'r gwasanaeth hwn yn ymwneud yn bennaf â lleihad yn nifer y safleoedd sydd ar gael i waredu'r elifiant a gasglwyd a chynnydd yn y costau cludo. Mewn llawer o ardaloedd, yr awdurdod lleol perthnasol sydd yn cael gwared ar garthion a'i gludo o geubyllau. Os nad oes gan yr awdurdodau lleol rwymedigaeth statudol i ddarparu gwasanaeth penodol, byddwn yn disgwyl i'w prisiau o leiaf gyfateb i'w costau llawn.

Nid yw'r gwaith o drin a chael gwared â charthion o geubyllau yn rhan o weithgareddau busnes craidd yr ymgymerwyr carthffosiaeth trwyddedig ac felly nid oes yn rhaid cael rheoliadau statudol gan Brif Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr. Byddai rheoleiddio'r gwasanaeth hwn yn golygu diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn rhinwedd ei swydd fel rheoleiddiwr perthnasol y diwydiant dŵr, disgwylir i Brif Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr gynnig unrhyw newidiadau deddfwriaethol i Lywodraeth ganolog i ddechrau. Wrth ymateb i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar y Mesur Dŵr drafft, mae'r Cyfarwyddwr wedi awgrymu y dylai'r Mesur gynnwys darpariaethau i gynnwys y gwaith o dderbyn, trin a chael gwared â charthion ym maes busnes rheoledig.

Er nad oes ganddo unrhyw bwerau rheoleiddiol dros y gwasanaeth hwn, mae gan Brif Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr bwerau o fewn Deddf Gystadlu 1998 i orfodi cyfyngiadau sydd yn ymwneud â chytundebau anghystadleuol a chamddefnyddio safle dominyddol o fewn y sectorau dŵr a charthffosiaeth.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Cost Lleoedd Parcio Ychwanegol

**Glyn Davies:** Yn dilyn eich ateb i WAQ9139, beth oedd cost darparu 95 lle parcio ychwanegol y tu ôl i brif faes parcio'r Cynulliad gan gynnwys cost y tir? (WAQ9545)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Cyflwynwyd cost gychwynnol o £21,717 i'r Cynulliad ym mis Mai 2000 gan Grosvenor Waterside am wneud gwaith i lefelu a rhoi wyneb newydd ar y tir y tu ôl i brif faes parcio'r Cynulliad er mwyn darparu llefydd parcio ychwanegol. Derbyniwyd y costau cychwynnol. Bryd hynny, cyfrifoldeb y Weithrediaeth oedd materion yn ymwneud â llety. Ar ôl trosglwyddo materion

llety Tŷ Crucywel ac Adeilad y Pierhead i Swyddfa'r Llywydd ar 1 Hydref 2000, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb ariannol am y mater hwn, ynghyd â'r holl ymrwymiadau llety a gwaith cynnal a chadw eraill. Nid ydym wedi derbyn anfoneb am y gwaith hwn eto. Telir y costau am y gwaith hwn o gyllideb bresennol Swyddfa'r Llywydd am waith bychan newydd a gwaith cynnal a chadw. Grosvenor Waterside sydd yn dal i fod yn berchen ar y tir.

**Cyflogau a Lwfansau a Dalwyd i Aelodau'r Cynulliad**

**Brian Gibbons:** A wnaiff Pwyllgor y Tŷ gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd gan y Cynulliad i'w Aelodau presennol a'i gyn Aelodau o dan Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau, Lwfansau ayb) 1999 yn ystod 1999-2000 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 3.3? (OAQ9619)

**John Marek:** Rhoddir y wybodaeth y gofynnir amdani yn y tabl isod:

**Gwariant ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad 1999-2000**

| | (£) |
|---|---|
| Cyflogau'r aelodau (gan gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwyr) | 2,199,423 |
| Cyfraniadau'r cyflogwyr i gynllun pensiwn yr Aelodau | 374,454 |
| Teithiau'r aelodau | 230,024 |
| Teithiau teuluol yr aelodau | 748 |
| Teithiau staff yr aelodau | 4,215 |
| Lwfans costau swyddfa | 497,991 |
| Lwfans costau ychwanegol | 162,850 |
| Lwfans cyflogau staff | 1,528,351 |
| Cyfraniadau pensiwn staff | 47,212 |
| Yswiriant aelodau | 7,088 |
| **Cyfanswm** | **5,052,356** |

Yn y tablau isod dangosir swyddi yn y Cynulliad yr oedd eu deilwyr, ym 1999-2000, â'r hawl i dderbyn cyflogau neu lwfansau a oedd yn fwy na'r cyflogau a'r lwfansau yr oedd Aelodau'n eu derbyn yn gyffredinol, ynghyd â'r cyflog neu'r lwfans blynyddol yr oedd gan bob deilydd swydd yr hawl i'w dderbyn:

**Cyflogau**

| Swyddfa | (£) |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | £64,308 |
| Ysgrifennydd Cynulliad /y Llywydd | £33,360 |
| Dirprwy Lywydd | £17,305 |
| Arweinydd y blaid fwyaf nad yw'n cael ei chynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad | £33,360 |

**Lwfansau**

| Swyddfa | (£) |
|---|---|
| Lwfans arweinwyr y pleidiau – sylfaenol | £45,000 p.a. |
| Lwfans arweinwyr y pleidiau – swm ychwanegol i bob Aelod ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad | £3,000 p.a. |